

CAPEL - Taflen Gyngor i Gapeli dan Fygythiad

Un o'r elfennau pwysigaf wrth achub capel rhag cau yw cefnogaeth leol a dylid ceisio'r gefnogaeth hon yn gynnar. Mae safleoedd ar gyfer defnydd cymunedol ar gael am bris yn aml ac mae'n bosibl i gapel oroesi'n ariannol os gellir ei addasu ar gyfer digwyddiadau lleol.

1. Ceisiwch asesu pwysigrwydd hanesyddol, pensaernïol a threfweddol y capel gan ddefnyddio arbenigedd Awdurdod Lleol a thrwy gysylltu â CAPEL, os oes angen.
2. Os penderfynwch ar adfer neu adnewyddu, efallai y bydd cyllid ar gael o'r sefydliadau a restrir yn:
 - *Funds for Historic Buildings in England and Wales* (Cyfeiriadur Ffynonellau). Ar gael o: The Architectural Heritage Fund, Clareville House, 26-27 Oxenden Street, London SW1Y 4EL. Ffôn 0171 925 0199, e-bost ahf@ahfund.co.uk Gwefan: <http://www.ahfund.org.uk> Mae hon yn rhestr gynhwysfawr o ffynonellau ar gyfer atgyweirio, gwarchod, trawsnewid ac adfer (gyda diweddariadau)
 - Taflenni Gwybodaeth ynglŷn ag Ymddiriedolaethau Elusennol Cymru. Ar gael o: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Baltic House, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH. Ffôn 029 2043 1700, e-bost enquiries@wvca.org.uk > Ceir yma arweiniad cyffredinol a ddiweddarir yn rheolaidd..
3. Ar gyfer capeli a ystyrir yn ddianghenraid bellach:
 - Mae llyfryn defnyddiol gan CADW: *Chapels in Wales: Conservation and Conversion* (ailargraffwyd 2003). Ar gael o CADW, Plas Carew, Uned 5/7, Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ)
 - Mae Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru yn ymddiddori mewn prynu capeli nad oes eu hangen bellach. Gwybodaeth oddi wrth Gruff Owen, WRBT, 10 Heol y Dŵr, Pen y Groes, Caernarfon LL54 6LG Ffôn 01286 882398 e-bost gruff.owen@yacwrbt.plus.com
 - Mae Gwasanaeth Tir ac Eiddo'r Eglwys yn bodoli i gydweddu eglwysi a chapeli yng Nghymru â chymdeithasau tai sy'n datblygu. Gellir defnyddio adeiladau a thir capeli ar gyfer tai cymdeithasol a defnydd cymunedol, neu gellir adeiladu tai o gwmpas capel sy'n dal ar agor. Mae Aelwyd, sef Cymdeithas Dai Gristnogol, yn cydlynu'r Gwasanaeth di-dâl hwn. Cysylltwch â Martin Hughes, Cymdeithas Dai'r Aelwyd Cyf, Canolfan Pensiynwyr Pontycymmer, 55 Oxford Street, Pontycymmer, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 8DD Ffôn/Ffacs 01656 872 757 e-bost martin.aelwydha@ic24.net
4. Os digwydd i gapel gael ei gau neu ei ddymchwel, gwnewch yn siŵr bod yr holl gofnodion yn cael eu hadneuo yn archifdy lleol y sir neu yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn unol â'r arfer enwadol. Ynglŷn ag adneuo placiau ac arteffactau eraill, dylid ceisio cyngor oddi wrth yr enwad neu oddi wrth guradur yr amgueddfa leol.